Cyngor
sir ddinbych
denbighshire
County Council

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | **Pwyllgor Craffu Perfformiad** |
| **Dyddiad y cyfarfod** | **6 Mehefin 2024** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | **Y Cynghorydd Barry Mellor (Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant) / Gary Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Llywodraethu a Busnes ac Uwch Berchennog Cyfrifol y Rhaglen Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol)** |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | **Helen Vaughan-Evans (Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau)** |
| **Awdur yr adroddiad** | **Liz Wilcox-Jones (Rheolwr y Rhaglen Newid Hinsawdd Dros Dro)** |
| **Teitl** | **Adolygiad ac Adnewyddiad Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol Cyngor Sir Ddinbych (2021/22–2029/30) ym Mlwyddyn 3** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor Craffu am y Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol sydd wedi'i hadolygu a'i hadnewyddu ym Mlwyddyn 3 (2021/22 i 2029/30).

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Ar ôl i'r Pwyllgor Craffu ystyried y dull arfaethedig o gwblhau proses adolygu ac adnewyddu'r ddogfen ym Mlwyddyn 3 ym mis Mehefin 2023, mae'r papur hwn yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Craffu ar ganlyniad y broses honno gan gynnwys:

- dogfen ddrafft y Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol sydd wedi'i hadolygu a'i hadnewyddu ym Mlwyddyn 3 (2021/22 i 2029/2030) a gyhoeddwyd i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus arni ym mis Mai (atodiad 1).
- canfyddiadau cychwynnol yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y drafft (atodiad 2);
- newidiadau arfaethedig i'r ddogfen yn sgil yr ymgynghoriad cyhoeddus (atodiad 3).

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 I'r Pwyllgor Craffu adolygu a rhoi adborth ar ddatblygu'r Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol sydd wedi'i hadolygu a'i hadnewyddu ym Mlwyddyn 3 a datgan eu cefnogaeth neu beidio i'r Cyngor ei mabwysiadu a'i rhoi ar waith.

3.2 I'r Pwyllgor Craffu benderfynu a yw'n dymuno monitro gwaith ei chyflawni'n y dyfodol, gyda golwg ar gefnogi'r Cyngor i gyflawni ei uchelgais di-garbon net erbyn 2030.

3.3 I'r Pwyllgor Craffu gadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (atodiad 4) fel rhan o'i ystyriaethau.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Bu i'r Cyngor ddatgan Argyfwng Newid Hinsawdd ac Ecolegol ym mis Gorffennaf 2019, gan ymrwymo i ddod yn Gyngor Di-garbon Net erbyn 2030 fan bellaf a gwella bioamrywiaeth ar draws y Sir ymysg pethau eraill. Yn dilyn hynny, mabwysiadwyd y Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol (2021/22–2029/30) yn Chwefror 2021, sy'n ymrwymo'r Cyngor i fod yn Gyngor Di-garbon Net a Chyngor Ecolegol Gadarnhaol erbyn 2030, a lleihau allyriadau carbon o'r nwyddau a'r gwasanaethau rydym yn eu prynu (cadwyn gyflenwi'r Cyngor) 35% erbyn 2030. Bu i'r Cyngor hefyd addasu ei Gyfansoddiad ym mis Hydref 2020, fel bod yn rhaid i bob penderfyniad gan y Cyngor 'roi ystyriaeth i fynd i'r afael â newid hinsawdd a newid ecolegol'.

4.2 Bydd Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol Cyngor Sir Ddinbych (2021/22–2029/30) yn cael ei hadolygu a'i hadnewyddu bob 3 blynedd. 2023/24 yw'r tro cyntaf i'r Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol gael ei hadolygu a'i hadnewyddu ac mae'r canlynol wedi'i gwblhau yn rhan o'r gwaith hwnnw:

a) Lansiwyd dull gweithredu a chytuno ar ffiniau i weithio oddi mewn iddynt gyda'r Tîm Gweithredol Corfforaethol a'r Pwyllgor Craffu Perfformiad rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2023.

b) Cynhaliwyd arolwg cyhoeddus cychwynnol ar-lein rhwng 18 Mai a 2 Gorffennaf 2023 a gweithdy wyneb yn wyneb i'r cyhoedd ym mis Tachwedd 2023.

c) Cynhaliwyd gweithdai penodol i'r gwasanaethau ar gyfer pob maes gwasanaeth ym mis Tachwedd 2023.

d) Bu gwaith ymgysylltu drwy gydol y broses â Bwrdd Sir Ddinbych Wyrddach a gweithgor gwleidyddol trawsbleidiol yr Argyfwng Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol, gan gynnwys adolygiad o ddrafft Blwyddyn 3 wedi'i adolygu a'i ddiwygio, yn y cyfarfodydd ar 21 Chwefror a 1 Mawrth 2024.

e) Bu gwaith ymgysylltu drwy gydol y broses â'r Aelod Arweiniol (Barry Mellor) ac Arweinydd y Tîm Gweithredol Corfforaethol/Noddwr y Rhaglen (Gary Williams).

f) Fe ymgysylltwyd gyda Phenaethiaid Gwasanaeth, Rheolwyr Canol a swyddogion allweddol yn y Cyngor, a chafodd y camau gweithredu yn y drafft eu cadarnhau.

g) Cyflwynwyd y drafft sydd wedi'i adolygu a'i ddiweddaru ym Mlwyddyn 3 i gyfarfod yr Uwch Dîm Arwain ar 8 Chwefror a chyfarfod Briffio'r Cabinet ar 4 Mawrth.

h) Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y drafft wedi'i ddiweddaru o 25 Mawrth tan 20 Mai 2024 a thrafodwyd y strategaeth ym mhob Grŵp Ardal yr Aelodau yn ystod mis Ebrill a Mai 2024.

4.3 Mae'r prif feysydd yn y strategaeth a adolygwyd ac a ddiweddarwyd yn cynnwys:

4.3.1 Ychwanegu tair adran newydd sy'n cydnabod y dylanwad ehangach y gall y Cyngor ei gael i sicrhau newid yn yr agenda hon ar draws Sir Ddinbych, yr angen am wella gwytnwch rhag newidiadau yn yr hinsawdd sydd bellach yn arferol ac ymateb i gwmpas cynyddol mewn cynlluniau lleol a chenedlaethol.

4.3.2 Cyflwyno atodiad technegol fel lle i gynnwys hanes newidiadau i brosesau/polisïau sydd wedi'u cwblhau a phrosiectau/gweithgareddau oedd wedi'u cynnwys mewn cyhoeddiadau blaenorol o ddogfen y Strategaeth a darparu gwybodaeth fanylach am berfformiad hyd yma. Mae hyn yn cynnwys mwy o wybodaeth am feysydd lle mae'r targed wedi profi i fod yn heriol iawn.

4.3.3 Mae'r newidiadau penodol i brosesau/polisïau a chamau gweithredu/prosiectau sy'n gysylltiedig â chyflawni'r strategaeth wedi'u diweddaru yn y ddogfen ddrafft. Mae eitemau sydd wedi'u cwblhau wedi'u rhestru yn yr atodiad technegol.

4.4 Mae dogfen y Strategaeth ddrafft wedi'i diweddaru ym Mlwyddyn 3 wedi cael ei chyhoeddi ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus terfynol. Gweler Atodiad 1 i weld y strategaeth ddrafft sydd wedi'i hadolygu gan y cyhoedd.

4.5 Roedd yr ymgynghoriad ar-lein ar agor am 8 wythnos o 25 Mawrth tan 20 Mai. Trafodwyd y strategaeth ddrafft yng nghyfarfodydd holl Grwpiau Ardal yr Aelodau ym mis Ebrill a Mai. Cyflwynwyd rhai pethau'n uniongyrchol i'r tîm Newid yn yr Hinsawdd. Cafwyd cyfanswm o 336 o ymatebion, sydd bellach wedi'u dadansoddi. Gweler atodiad 2 am adroddiad ar ganfyddiadau cychwynnol yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y ddogfen ddrafft. Mae hi werth nodi bod 88% o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai'r Cyngor fabwysiadu'r ddogfen strategaeth ddiwygiedig.

4.6 Cafwyd sawl darn o adborth ynglŷn â sut y gallai'r Cyngor wella mwy ar y ddogfen strategaeth ddiwygiedig. Mae atodiad 3 yn rhoi braslun o'r newidiadau arfaethedig i'r ddogfen yn sgil yr ymgynghoriad cyhoeddus.

4.7 Dyma'r amserlen arfaethedig i gymeradwyo'r Strategaeth sydd wedi'i diweddaru ym Mlwyddyn 3 yn derfynol:

- Briffio'r Cabinet – 3 Mehefin
- Pwyllgor Craffu Perfformiad – 6 Mehefin
- Y Cabinet – 25 Mehefin
- Y Cyngor – 9 Gorffennaf

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1 Mae sicrhau bod y strategaeth yn parhau i fod yn berthnasol, yn gyfredol ac yn cael ei defnyddio yn allweddol o ran cefnogi datganiad Newid Hinsawdd ac Argyfwng Ecolegol y Cyngor (2019) a oedd yn ymrwymo'r Cyngor i fod yn Ddi-garbon Net erbyn 2030 a gwella bioamrywiaeth yn Sir Ddinbych. Mae adnewyddu'r targedau, llwybrau cyrhaeddiad a gweithgareddau yn rheolaidd yn helpu i gynnal y ffocws a'r dyhead sydd eu hangen i gyflawni'r Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol 2021–2030 a fabwysiadwyd, trwy gefnogi gostyngiad i allyriadau carbon, cynnydd i ddal a storio carbon a gwella cyfoeth rhywogaethau ein tir er mwyn i'r Cyngor gyflawni ei nod at 2030 o fod yn Ddi-garbon Net, Ecolegol Gadarnhaol a gweld gostyngiad o 35% yn allyriadau'r gadwyn gyflenwi. Bydd datblygu a chwblhau'r gweithgareddau yn y Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol 2021–2030 yn cyfrannu'n uniongyrchol at y themâu canlynol yn y Cynllun Corfforaethol 2022–2027: Sir Ddinbych wyrddach.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Nid oes unrhyw gostau'n codi'n uniongyrchol o'r adroddiad hwn. Gellir cynnal yr adolygiad gyda'r staff ac adnoddau ariannol sy'n bodoli eisoes.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1 Gweler atodiad 4 ar gyfer Asesiad o Effaith ar Les dogfen y strategaeth ddiwygiedig ym Mlwyddyn 3. Dan bum egwyddor cyflawni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, fe sgoriodd y Strategaeth 3 seren o 4 (sgôr mewn gwirionedd: 32/36). O ran saith nod lles y Ddeddf, mae effaith bosib' y Strategaeth wedi'i harfarnu i fod yn gadarnhaol i 6 a niwtral i 1.

## 8. Pa ymgynghori sydd wedi'i wneud gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Gweler y manylion yn adran 4.2 yn yr adroddiad hwn.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Mae Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol Cyngor Sir Ddinbych wedi golygu buddsoddiad ariannol sylweddol dros y blynyddoedd diweddar a bydd yn parhau i fod angen buddsoddiad wrth fynd ymlaen. Fodd bynnag, gallai'r pwysau ariannol mae'r Cyngor nawr yn ei wynebu effeithio ar y cyllid sydd ar gael dros y blynyddoedd nesaf. Er y gellir gwneud yr adolygiad ei hun o fewn adnoddau sy'n bodoli, mae'n bwysig bod y rhaglen yn parhau i weithio trwy gydol prosesau gosod cyllideb refeniw a chyfalaf y Cyngor pan mae gofynion adnoddau ychwanegol yn dod i'r amlwg.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Nid oes unrhyw risgiau ychwanegol yn codi o'r adroddiad hwn.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000.

11.2 Mae Adran 7.4.1 Cyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu swyddogaeth Craffu mewn perthynas ag adolygu a datblygu polisïau.